

# Addysg a gofal plant i blant a phobl ifanc anabl

## Beth wnaethon ni ei ddarganfod

# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud



Ni yw'r **Pwyllgor Addysg Plant a Phobl Ifanc.**

Rydym yn grŵp o bobl yn **Senedd Cymru.**



Rydym wedi bod yn darganfod beth mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ei feddwl am ofal plant ac addysg yng Nghymru.



Fe wnaethon ni ddysgu am beth mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ei chael yn anodd. Fe wnaethon ni benderfynu beth sydd angen ei newid.

# Beth oedden ni eisiau ei ddarganfod



Mae’r llyfryn hwn yn sôn am y pethau y gwnaethon ni eu darganfod.




Fe wnaethon ni edrych ar beth mae plant a phobl ifanc yng Nghymru eu hangen.

Yn enwedig y rhai sydd ag



- **Anableddau corfforol**
  Er enghraifft, problemau gyda cherdded, sefyll neu reoli eich cyhyrau.



- **Anableddau synhwyraidd**
  Er enghraifft, problemau gyda gweld neu glywed pethau.



- **Anghenion dysgu**

  Mae hyn yn golygu ei chael hi’n anodd dysgu neu ddeall gwybodaeth.



  Gallai hyn fod oherwydd pethau fel dyslecsia neu ddyscalcwlia.

  Gall anabledd dysgu gael ei achosi gan gyflyrau fel Syndrom Down.



- **Niwrowahaniaeth**

  Mae Awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, neu ADHD, yn fathau o niwrowahaniaeth.

  Mae'n disgrifio pobl sy'n meddwl ac yn deall gwybodaeth yn wahanol.



Fe wnaethom gael gwybod am brofiadau plant 0 oed hyd at 16 oed.

Roeddem eisiau cael gwybod:

- beth sy’n digwydd ar draws Cymru




- beth sydd angen newid
- beth sydd angen ei wella



Ni all y Pwyllgor wneud unrhyw un o'r newidiadau eu hunain.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darllen ac yn siarad am ein hargymhellion, ac yna'n penderfynu beth i'w wneud.

# Sut wnaethon ni ddarganfod pethau



Fe wnaethon ni restr o bethau roedden ni eisiau eu darganfod. Fe wnaethon ni gasglu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft:



- fe wnaethon ni siarad gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd am eu profiadau



- fe wnaethon ni ymweld â meithrinfeydd ac ysgolion
- fe wnaethon ni ofyn i bobl anfon eu barn atom



- fe wnaeth pobl o sefydliadau siarad â'r pwyllgor

# Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth



Fe wnaethon ni ofyn i Weinidogion Llywodraeth Cymru sut y maent yn gwella pethau.




Fe wnaethon ni ysgrifennu adroddiad am y pethau rydyn ni wedi'u darganfod a gwneud argymhellion.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i’n hargymhellion. Byddant yn dweud a fyddant yn eu gwneud ai peidio.



Yna bydd aelodau’r Senedd yn siarad am yr adroddiad ac ymateb y Llywodraeth. Mae hyn yn cael ei alw’n **ddadl**.

# Pethau wnaethon ni ddarganfod



Roedd gennym 31 o syniadau, neu **argymhellion,** am bethau sydd angen eu newid.




Fe wnaethom hefyd ysgrifennu 5 casgliad. Maen nhw'n ymwneud â'r pethau rydyn ni wedi'u darganfod.

## Casgliad 1



Mae gan **bob** plentyn a pherson ifanc yr hawl i addysg.

Ond cawsom wybod nad yw llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael addysg dda.



Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael cam.

## Casgliad 2

Mae peidio â chael addysg dda yn niweidio



- sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo – eu hemosiynau
- eu hiechyd meddwl
- eu hiechydd corfforol
- eu gallu i weithio a gwneud penderfyniadau fel oedolion



## Casgliad 3

Mae peidio â chael addysg dda hefyd yn cael effaith ar

- rhieni a gofalwyr
- brodyr a chwiorydd
- y gymuned leol




Mae'n rhaid i rai rhieni roi'r gorau i weithio neu weithio llai. Mae hyn yn golygu bod gan deuluoedd lai o arian.

## Casgliad 4



Mae rhai gwasanaethau gofal plant ac ysgolion yn **gynhwysol**. Maent yn croesawu ac yn cefnogi **pob** plentyn a pherson ifanc.



Ond mewn rhai rhannau o Gymru, nid yw plant a phobl ifanc ag **anghenion dysgu** ac **anableddau** yn cael eu cynnwys yn dda iawn.

## Casgliad 5



Mae'r rhesymau pam nad yw rhai plant a phobl ifanc yn cael gofal plant ac addysg dda yn gymhleth.

Maent yn cynnwys:

- gwybodaeth a barn pobl am anabledd ac anghenion dysgu.
- pethau ymarferol, fel trafnidiaeth, adeiladau a gwybodaeth.



# Dod o hyd i ofal plant



Ni all rhai teuluoedd ddod o hyd i ofal plant. Mae'n anoddach dod o hyd i ofal plant i blant anabl.




Mae teuluoedd yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.




Mae hyn yn golygu na all rhai rhieni weithio. Mae hyn yn effeithio ar bethau fel eu hiechyd meddwl a faint o arian sydd ganddynt.

Mae'r pwyllgor yn meddwl bod angen i'r Llywodraeth a chynghorau lleol wneud mwy i ddatrys y problemau hyn.

# Cael addysg dda



Mae'n anodd i rai plant a phobl ifanc gael addysg dda.

Cawsom wybod am rai o'r rhesymau.




- Nid oes gan ysgolion a chynghorau ddigon o arian i roi’r cymorth sydd ei angen ar blant.



- Nid yw rhai pobl yn deall anabledd ac anghenion dysgu.
- Ni all rhai plant a phobl ifanc yn yr ysgol gael mynediad i rai dosbarthiadau, adeiladau, trafnidiaeth, tripiau a chwaraeon.



- Mae rhai plant yn cael eu bwlio oherwydd eu bod yn anabl. Mae hyn yn ddrwg iawn i'w hiechyd meddwl.

# Dod o hyd i wybodaeth dda



Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth dda am wasanaethau a chymorth.




Rhaid i wybodaeth fod

- yn hawdd dodd o hyd iddo




- i gyd mewn un lle

- yn eglur




- ar gael mewn gwahanol fformatau